# Dyfnallt Morgan yn Cofio Harold Stanley Jones

## (1901 — 1989)

ADDAS iawn yn *Y Casglwr* yw cofio am y gŵr oedd yn ail i Bob Owen fel prynwr a darllenwr llyfrau. Wedi i Harold Stanley Jones (1901-1989) ymddeol ddechrau'r chwedegau o'i swydd fel pennaeth Adran Llenyddiaeth Saesneg Y Coleg Normal lle bu'n preswylio am flynyddoedd lawer (hen lanc ydoedd), fe gafodd lety cartrefol gyda Mrs Jane Parry a'i merch, Meinwen ym Minawel, Ffordd y Coleg.

Roedd wrth ei fodd yn ei stydi fawr ar y llawr cyntaf, silffoedd llydan yn cuddio pob mur o'r llawr i'r nenfwd, a dwy res o lyfrau, un y tu ôl i'r llall, ar bob un ohonynt; desg, cadeiriau (ar wahân i'w gadair fawr adeiniog esmwyth) a rhannau o'r llawr hefyd dan faich llyfrau a phapurau.

Popeth yn dra threfnus serch hynny, megis yn stydi debyg David Thomas, golygydd *Lleufer*, a fu'n byw mewn tŷ cyfagos cyn dyfodiad HSJ i'r stryd.

Ond yr oedd gan yr olaf un peth ychwanegol; yn goron ar y cyfan, ar stondin uchel, gramoffon weindio hen ffasiwn mewn cas bren, a chorn anferth i gario'r sain, ac i fwydo'r peiriant ugeiniau lawer o recordiau o fiwsig clasurol, ffrwyth (fel ei lyfrgell) blynyddoedd o gasglu.

* * * *

GANWYD ef yn fab i'r Parchedig a Mrs D Stanley Jones, Salem, Caernarfon, ac yr oedd ganddo ddwy chwaer, May a ddaeth yn Arolygydd Ysgolion, ac Enid a briododd y Parchedig D J Davies, Capel Als, Llanelli.

Wedi graddio mewn Saesneg ym Mangor, enillodd radd ymchwil yn Rhydychen ac yna mynd i ddysgu am ugain mlynedd mewn ysgol ramadeg yn Accrington, cyn ei benodi yn 1945 i staff y Coleg Normal lle'r arhosodd dros weddill ei yrfa broffesiynol.

Clywais ganmol arno gan lawer iawn o'i gyn-fyfyrwyr fel darlithydd eglur a diddorol y teimlent ddyled a pharch mawr iddo.

Ei dad, awdur cyfrol o ysgrifau, *Myfyrion ar Ein Afonydd*, oedd wedi ennyn ei ddiddordeb mewn llyfrau, meddai ef. Yr oedd yn blentyn gwantan a chollodd lawer o ysgol a dyna reswm arall dros iddo fagu'n gynnar iawn yr arfer o ddarllen yn helaeth.

Yr oedd ei fam yn bianydd medrus ac oddi wrthi hi yr etifeddodd ei hoffter o fiwsig, hoffter a gynyddodd wrth iddo wrando ar gerddorfa'r Hallé yn Blackburn ac wrth fynychu'n dra chyson wyliau cerdd yn *Festival Hall* Llundain ac *Usher Hall* Caeredin.

Am dros hanner can mlynedd o 1927 ymlaen, ac eithrio blynyddoedd y rhyfel, crwydrai'r Swistir am rai wythnosau bob haf ac yr oedd ganddo adnabyddiaeth drylwyr o'r wlad honno. Gan nad oedd ganddo gamera, byddai'n prynu llungardiau post iddo'i hun ar ei deithiau i'r Swistir ac i wledydd eraill.

Rhwng y rhain a nifer o gyfrolau taith drudfawr, nid oedd yn brin o ddeunydd i'w atgoffa yn ystod misoedd y gaeaf o'r 'mannau gwyn man draw'.

Ei brif borfeydd fodd bynnag oedd gweithiau'r llenorion mawr yn Lloegr drwy'r canrifoedd, yn feirdd a nofelwyr, haneswyr a chofiannwyr.

Yr oedd wedi darllen pob llyfr ar ei silffoedd, lawer ohonynt yn fwy nag unwaith. Cofiai eu cynnwys yn fanwl a hoffai ddyfynnu ohonynt yn ôl y galw wrth sgwrsio. Mae'n amlwg iddo fwynhau ei waith darllen a gallai gyfleu'r mwynhad hwnnw i eraill, nid yn anfeirniadol ychwaith, ond bob amser yn adeiladol.

Perthnasol yw nodi yn y fan yma na fyddai byth yn sôn yn ddifrïol am eraill, er ei fod yn sylwedydd craff o nodweddion personoliaeth ei gyd-ddynion ac yn ymddiddori'n fawr yn eu hynt a'u helynt.

* * * *

YR OEDD Stan ('Harold' i rai, yn enwedig ei chwiorydd, 'Stan' i ni ac eraill o'i gyfeillion) yn hynod o garedig fel benthyciwr llyfrau, ond gofalai roi enwau ei gwsmeriaid ar glawr mewn llyfr a gadwai at y pwrpas. Doedd 'retrieval' ddim yn broblem yn y byd iddo.

Dyma gofio dweud yn awr mai Saesneg a siaradai fynychaf, er ei fod yn gwbl rugl yn y Gymraeg, fel y profodd mewn rhaglen radio hanner awr a wnaeth gyda mi un tro, yn y gyfres 'Fy Newis I' lle cafodd gyfle i ddangos pa mor gatholig oedd ei chwaeth gerddorol.

Eto i gyd ychydig iawn a wyddai am hanes llenyddiaeth Gymraeg. Fe'm syfrdanodd unwaith trwy ofyn imi'n reit ddifrifol: 'Tell me, has anything of lasting value ever been written in Welsh?' Hynny oddi wrth fab y mans yng Nghaernarfon o bob man, lle'r oedd mynd mawr ym myd y Wasg Gymreig pan oedd e'n blentyn.

Bu'n ffyddlon yn oedfaon Eglwys Pen-dref trwy'r blynyddoedd ym Mangor ac yr oedd felly'n gyfarwydd â chynnwys cyfoethog y llyfr emynau. Nodwyd eisoes ei fod yn frawd-yng-nghyfraith i fardd Cadair Aberafan 1932. Yr oedd D J Davies yn ffrind i'm tad-yng-nghyfraith, T Eirug Davies, enillydd Coronau Aberafan ac wedyn Castell Nedd yn 1934.

Mae hynny'n f'atgoffa o'r hiwmor sych a'i nodweddai. Er enghraifft, pan enillais i Goron Llangefni yn 1957, yr oedd Stan fel arfer yn y Swistir a chlywodd yno am y peth. Anfonodd gerdyn at fy mrawd-yng-nghyfraith John Eirug, cyd-aelod ag ef o Staff y Normal: 'Congratulations! You must be the most crowned family in Europe!'

Ychydig fisoedd cyn ei farw ddechrau Rhagfyr, ymfalchïai yng ngwaith perthynas iddo, Idris Reynolds, yn cipio Cadair Prifwyl Dyffryn Conwy.

* * * *

DAETH amser pan na allai Mrs Parry barhau i ofalu am Stan a bu rhaid cefnu ar y llety cysurus a fuasai'n gartref dedwydd iddo cyhyd. Yn wyneb ansicrwydd ei ddyfodol, gwerthodd ran helaethaf ei lyfrgell i Gwmni Blackwell yn Rhydychen, a bu rhaid ffeindio prynwr i'r gramoffon hefyd. Mae'n sicr i hyn fod yn gryn loes iddo ar y pryd.

Cafodd gyfnod o symud o un llety-dros-dro i'r llall cyn cael fflat-i-hen-bobol iddo fo'i hun, lle gallodd ailafael yn ei *modus vivendi* myfyrgar.

Yr oedd yn ddall mewn un llygad ers yn ifanc iawn. Rhaid bod y llall yn eithriadol o gryf i gyflawni'r gwaith a wnaeth. Ond magodd hwnnw bilen yn y diwedd, yn ystod y cyfnod diweddaraf hwn. Trwy drugaredd bu'r driniaeth a gafodd yn llwyddiant a gallodd Stan gymryd at ei waith darllen unwaith yn rhagor.

Gosodwyd silffoedd yn y fflat a chyn bo hir yr oedd y rheini eto dan eu sang o lyfrau, papurau a recordiau. Oedd, yr oedd wedi cael gramoffon weindio tipyn llai o faint.

A dyna'r darlun diweddara sy gen i ohono, yn drefnus eto fyth, yn gwybod yn union lle'r oedd popeth, ac wrth ei fodd o fore tan nos, ddydd ar ôl dydd, yn gwneud bwyd iddo'i hun ac yn golchi llestri, ac yn gwrando ar y radio neu'n ail-ddarllen un o nofelau Dickens efallai. Ac ar ben hyny, yn cwblhau pos croesair y *Times* yn feunyddiol.

Dyna biti nad aeth ati i lenydda o gwbl oblegid yr oedd ganddo ddawn ysgrifennu diamheuol, tyst o'i lythyrau hyfryd eu harddull mewn ysgrifen glir a chymen.

Yr oedd yn groesawus dros ben pan alwai rhywun heibio, yn codi o'i gadair esmwyth, yn ŵr main tua chwe throedfedd o daldra, yn crymu fymryn erbyn hyn, ond ei feddwl mor effro ag erioed.

* * * *

Y TRO olaf imi ei weld, bûm yn holi ychydig am ei febyd yng Nghaernarfon. Yn anffodus 'ches i ddim llawer allan ohono ond y penillion canlynol. Am ryw reswm gwnes nodyn ohonynt, a dyma nhw, yn y gobaith y daw goleuni arnynt o rywle.

Roedd Eifionydd, golygydd *Y Genedl Gymreig*, yn ymwelydd cyson yn y mans pan oedd Stan yn fach. 'He would relapse into *cynghanedd* at the drop of a hat . . . wrth fwyd fe ddwedai "mawr holi am yr halen" ' — enghraifft o Stan yn defnyddio'r ddwy iaith ar yr un gwynt. Ta waeth, dyma 'englyn' a ddysgodd Eifionydd iddo:

*Da chwi oll dewch allan — wroniaid*
*Ar unwaith o'ch trigfan,*
*Aeth milltir o dir ar dân*
*Wrth i fodryb Siân — smocio!*

Ni fu Stan ei hun erioed yn smocio, gyda llaw. Dyma englyn buddugol mewn cystadleuaeth gweithio englyn a'r mwyaf o enwau ynddo:

*Carreg a chaseg a chosyn — chwa haul*
*A cheiliog y rhedyn,*
*Chwys meichiau a choes mochyn,*
*Llew ac arth a llo gwyn.*

Nid Eifionydd oedd yr awdur ond ganddo ef y cafodd Stan yr englyn. Ef hefyd a ddysgodd y ddau bennill canlynol i'r crwt bach:

*Mae afon ym Mantiwa*
*Sy'n loywach na'r La Plata*
*Ac ar ei chwr mae Mynydd y Twr*
*Sy'n uwch na'r Himalaya.*

*Yn Llannerch-y-medd ym Mondo*
*Fe gladdwyd y Brenin Pabo,*
*A'r hen frenhines teg ei gwedd*
*Yn Llannerch-y-medd mae honno.*

* * * *

YN BYW y drws nesaf iddyn nhw yng Nghaernarfon yr oedd merch fach o'r enw Mabel Parry, a'i theulu yn aelodau o Salem. Yr oedd yn gyfoes â May, chwaer Stan ac yn ffrind iddi. Graddiodd ym Mhrifysgol Cymru yn 1919.

Yn Aberystwyth anogwyd hi gan wraig yr Athro André Barbier i feithrin ei llais soprano cyfoethog. Yn nes ymlaen yn ei hoes, recordiodd nifer o ganeuon gwerin ar yr hen recordiau 78. Bu'n dysgu Cymraeg yn ysgol ramadeg y merched ym Mangor ac yng Ngholeg y Santes Fair.

Hyn oll, gan Stan, fel rhagymadrodd i'r ffaith mai Mabel, pan oedden nhw'n blant, a ddysgodd y pennill canlynol iddo:

*Ar ochor Mynydd Parys*
*Mi gysgis ac mi freuddwydis,*
*Mi welis dri o man-o-wars*
*Yn nofio a bwtsiero,*
*Un a llwyth tybaco,*
*Honno own i'n leicio,*
*Digon o lwyth i John Cae Mawr*
*Am bedair awr i tsowio. (to chew)*

Teg nodi iddo gael llawer o ffrindiau drwy'i oes ond rhaid enwi dau a fu'n arbennig o ffyddlon iddo tan y diwedd, sef Bob Thomas a'r Dr B L Davies. Yr oedd Eleri, fy ngwraig, yn un o'i brif gwsmeriaid ym maes nofelau ditectif. Cawsom ninnau ein dau lawer o'i gwmni difyr ar yr aelwyd yma ac y mae'n chwith iawn ar ei ôl.


## YN EISIAU

*Rhifyn Chwefror 1970 (Rhif 88)* o Barn.

**Huw Williams, 158 Ffordd Penrhos, Bangor, Gwynedd.**